



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Ysgolion a COVID-19 - Gwybodaeth i Rieni

1. A alla i sgwrsio â rhieni eraill ar yr iard?

Gallwch, ond mae'n bwysig iawn cadw at y rheol cadw pellter cymdeithasol 2m ar yr iard, yn ogystal â phobman arall. Rydyn ni'n gwybod ei bod hi wir yn demtasiwn cyfarch pobl nad ydych chi wedi'u gweld ers amser maith gyda chwtsh neu gusan, neu ymuno â sgwrs gyda grŵp o rieni, ond mae COVID-19 yn dal i fod gyda ni. Hyd yn oed os ydych yn gwisgo masg, mae'n hanfodol cadw pellter cymdeithasol.

2. A fydd fy mhlant yn gwneud addysg gorfforol (AG)?

Byddan, mae addysg gorfforol yn bwysig iawn i blant, ond bydd gwersi yn cael eu haddasu i leihau'r risg o ledaenu COVID-19. Gallwch wneud pethau'n llawer haws trwy wirio pryd bydd eich plentyn yn cael gwersi AG a sicrhau ei fod yn mynd i'r ysgol yn ei wisg AG ar y dyddiau hynny.

3. A all plant fynd i'r ysgol ag annwyd?

Os nad oes gan blentyn symptomau COVID-19 ond mae ganddo symptomau eraill tebyg i annwyd, megis trwyn yn rhedeg, nid oed angen iddo gael prawf ac nid oes angen iddo hunanyysu. Gall eich plentyn fynd i'r ysgol os yw'n ddigon iach i wneud hynny.

4. A yw plant yn gallu mynd i'r ysgol os oes gan riant neu frawd neu chwaer arall, neu unrhyw un arall yn eu tŷ symptomau COVID-19?

Os yw plentyn/rhiant/aelod o'r aelwyd yn datblygu symptomau COVID-19, dylai'r aelwyd gyfan hunanyysu ar unwaith, ac archebu prawf i'r unigolyn sydd â'r symptomau. Nid yw'n angenrheidiol profi'r aelwyd gyfan os nad oes ganddynt symptomau.

Symptomau COVID-19 yw:

- peswch newydd, parhaus
- tymheredd uchel
- colli neu newid i synnwyr arogli neu flasu

5. A yw plant yn gallu mynd i'r ysgol os ydyn nhw wedi bod mewn cysylltiad â rhywun nad ydyn nhw'n byw gyda nhw ond sydd â symptomau COVID-19?

Os yw plentyn wedi bod mewn "cysylltiad" â rhywun sydd â symptomau, dylai fynd ymlaen fel arfer hyd nes bod yr unigolyn hwnnw'n derbyn canlyniad ei brawf. Os yw hwn yn bositif, bydd y tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â phobl a nodwyd fel cysylltiadau.

Mae cyswllt yn golygu:

- cyswllt wyneb yn wyneb gyda rhywun llai nag 1 metr i ffwrdd (gan gynnwys pan fyddwch wedi gwisgo gorchudd wyneb neu fasg wyneb)
- treulio mwy na 15 munud o fewn 2 fetr i rywun
- teithio mewn car gyda rhywun (hyd yn oed ar daith fer)

6. Beth fydd yn digwydd os oes gan yr ysgol achos positif o COVID-19?

Pan nodir bod achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau yn mynychu lleoliad addysgol neu ofal plant (boed yn staff neu'n ddisgybl) cysylltir â'r achos (neu'r rhiant) i asesu a oedd yn mynychu'r ysgol yn ystod ei gyfnod heintus ac a oes angen olrhain cysylltiadau ymhellach yn yr ysgol. Os yw unrhyw aelod o staff neu blentyn yn yr ysgol yn gyswllt i'r achos, bydd gofyn iddynt hunanynysu am 14 diwrnod a bydd eich tîm Profi, Olrhain, Diogelu neu Adran Addysg leol yn cysylltu â nhw. Os nad yw aelod o staff neu blentyn o'r ysgol yn gyswllt i'r achos, ni fydd angen iddynt hunanynysu.

7. Archebu prawf COVID-19:

Dim ond pobl â symptomau (peswch newydd, parhaus, tymheredd uchel, colli neu newid i synnwyr arogli neu flasu) ddylai gael eu profi.

Gellir trefnu prawf COVID-19 trwy'r [Porth](https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19) (<https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19>) neu drwy ffonio 119.

Mae profion ar gael yn bersonol neu gyda phe cyn profi cartref yn cael ei ddanfôn i'ch cartref a'i gasglu. Swab gwddf neu gyfuniad o swab gwddf a thrwyn yw'r prawf.

Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd cael prawf. Efallai gall eich tîm Profi, Orlhain, Diogelu eich helpu os ydych yn cael problemau.

8. Hunanynysu:

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd â symptomau COVID-19, ac unrhyw un sy'n byw gyda nhw, hunanynysu hyd yn oed os yw'r symptomau'n ysgafn.

Mae'n rhaid i chi beidio â mynd i'r ysgol, meithrinfa, lleoliadau gofal plant eraill, gwaith, neu leoedd megis meddygfa, fferyllfa neu ysbyty.

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd â symptomau hunanynysu am 10 diwrnod o'r adeg y dechreuodd ei symptomau. Gall ddychwelyd i'r ysgol neu'r gwaith ar ôl 10 diwrnod os ydyw'n ddigon iach i wneud hynny.

Mae'n rhaid i unrhyw un yn yr aelwyd sydd heb symptomau hunanynysu am 14 diwrnod o'r adeg y dechreuodd y person cyntaf yn y cartref gael symptomau.

Dim ond pobl â symptomau ddylai gael prawf. Ni ddylai pobl heb symptomau gael prawf.

Nid yw cael canlyniad prawf negatif pan fyddwch yn gyswllt ag achos yn byrhau'r cyfnod ynysu, bydd gofyn i chi ynysu am 14 diwrnod o hyd os ydych chi'n gyswllt wedi'i gadarnhau o achos positif.

Os yw rhiant o'r farn bod gan ei blentyn/phlentyn symptomau OND mae'n penderfynu na fydd y plentyn yn cael prawf, rhaid i bob aelod o'r cartref hunanynysu am 14 diwrnod o ddechrau'r symptomau.

Os ydych yn cael canlyniad prawf positif, bydd y tîm Profi, Orlhain, Diogelu yn cysylltu â chi.

Os bydd y person sydd â symptomau yn cael canlyniad prawf negatif, ni fydd rhaid i bawb hunanynysu mwyach, gall plant ddychwelyd i'r ysgol a gall rhieni ddychwelyd i'r gwaith os ydynt yn ddigon iach a chyhyd â bod neb arall ar yr aelwyd wedi datblygu symptomau.